

NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW

PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR



01633 656757

newportlive.co.uk



Annwyl Aelod Posibl o'r Bwrdd

Diolch am fynegi eich diddordeb mewn ymuno â Casnewydd Fyw fel Ymddiriedolwr. Rydym yn chwilio am y canlynol: Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol, gydag angerdd dros Gasnewydd, a all ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol wrth i ni geisio ymateb i bandemig y Coronafeirws a chefnogi adfywiad economaidd a lles Casnewydd. Mae angen pobl arnom, sydd ag arbenigedd, egni ac uchelgais i'n cynorthwyo i gyflawni gwelliannau i iechyd a lles pobl a chymunedau Casnewydd.

Rydym yn darparu cyfuniad cyffrous o wasanaethau chwaraeon, hamdden, theatr, y celfyddydau, diwylliant a lles ledled Casnewydd, yn ogystal ag yn rhanbarthol a chenedlaethol ledled Cymru a'r DU. Rydym yn darparu cyfleoedd i hyfforddi a chymryd rhan mewn chwaraeon a diwylliant, o lawr gwlad i berfformiadau a digwyddiadau o'r safon uchaf.

I'n cefnogi i barhau i yrru'r sefydliad yn ei flaen, rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr sy'n barod i roi o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad i helpu ein cymunedau ac a fydd yn cofleidio ac yn rhannu ein hangerdd, cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd.

Rydym yn ffodus o gael gweithlu o'r radd flaenaf sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf, ac yn mynd yr ail filltir, ond a fyddai'n croesawu eich cyngor a'ch cefnogaeth yn eu datblygiad personol i wella'r sefydliad a'r gwasanaethau a ddarparwn.

Ymhlith y sgiliau eraill, rydym yn chwilio yn benodol am Aelodau Bwrdd newydd gyda phrofiad a dealltwriaeth o'r cefndir arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol ac sydd â'r gallu i gadeirio'r is-grŵp Cyllid, Adnoddau Dynol a Busnes o bosibl.

Yn gyfnewid am eich cyfraniad, rydym yn addo y byddwch yn mwynhau bod yn rhan o sefydliad elusennol sy'n ymdrechu i helpu'r gymuned i fod yn hapusach ac yn iachach, ac a fydd yn rhoi cyfle i chi wneud ffrindiau newydd, cwrdd â phobl ddiddorol, ehangu eich gorwelion a gwneud gwahaniaeth go iawn.

Mae gan Gasnewydd boblogaeth amrywiol ac mae Casnewydd Fyw yn manteisio ar hyn drwy allu dewis staff sydd ag ystod eang o sgiliau o bob rhan o'r Ddinas. Fel sefydliad, mae Casnewydd Fyw yn ymdrechu'n gyson i sicrhau bod ei broffil staffio yn adlewyrchu'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu. Er mwyn cynorthwyo gyda'r ymdrechion hyn, byddem yn croesawu ceisiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, cefndir ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cred neu anabledd.

Bwriad y pecyn amgaeedig yw rhoi rhagor o wybodaeth i chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Bwrdd, byddwn wrth fy modd pe gallech gwblhau datganiad byr o ddiddordeb er mwyn i ni allu dysgu ychydig mwy amdanoch chi fel person, a'r cyfraniad y gallech ei wneud i'r sefydliad.

John Harry
Cadeirydd y Bwrdd

CROESO I CASNEWYDD FYW

Ysbrydoli Pobl i fod yn Hapusach ac yn Iachach

Mae Casnewydd Fyw yn anelu at fod y dewis cyntaf ar gyfer chwaraeon, hamdden, theatr, celfyddydau a diwylliant ar draws Dinas Casnewydd, yn rhanbarthol ledled De Cymru ac yn genedlaethol ledled Cymru a'r DU.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys un ar ddeg o Ymddiriedolwyr, naw o'r gymuned leol a dau Ymddiriedolwr o Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae ein Ymddiriedolwyr yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac mae ganddynt amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad sy'n fuddiol i reoli llywodraethiant a datblygu'r busnes ymhellach.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd ar hyn o bryd, ac mae tri is-grŵp wedi'u sefydlu hefyd i ddarparu llywodraethiant a mewnwelediad strategol ychwanegol. Sef:

- ▷ **Cyllid, Adnoddau Dynol a Busnes**
- ▷ **Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus a Chysylltiadau Cyhoeddus**
- ▷ **Cynllunio Strategol**

Mae'r cyfle cyffrous hwn i ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn Casnewydd Fyw, yn swydd wirfoddol lle telir treuliau fel y bo'n briodol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ymwneud â dyletswyddau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwr yn y pecyn hwn.



CASNEWYDD FYW

Mae Casnewydd Fyw yn darparu ystod eang o wasanaethau o Bentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd (NISV), sy'n gartref i Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas, Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol a Stadiwm Casnewydd. Mae ein lleoliadau eraill yn y ddinas yn cynnwys: Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon, Canolfan Casnewydd, y Ganolfan Byw'n Actif a Chanolfan Gyswilt.

Rydym yn darparu rhaglenni hyfforddi a chyfranogi o fewn y sectorau lles, chwaraeon, gweithgarwch corfforol, addysg, y celfyddydau a chwaraeon, o lawr gwlad i berfformiadau safon uwch, sy'n ymdrechu i annog cyfranogiad, cyflawni nodau personol, lles, hwyl a chynwysoldeb. Mae Casnewydd Fyw wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau proffil uchel gan gynnwys Gŵyl y Sblash Mawr, digwyddiadau World Class, digwyddiadau chwaraeon, gwersylloedd hyfforddi ar gyfer Timau Beicio Prydain Fawr a Thimau Beicio Paralympaidd Prydain Fawr, ac yn 2019 croesawom Gemau Trawsblannu Prydain Westfield Health. Yn 2021 byddwn yn cynnal Cwpan y Cenhedloedd Beicio Trac, digwyddiad Beicio Trac mwyaf y byd a thimau Beicio Trac Olympaidd a Pharalympaidd Prydain Fawr cyn iddynt gystadlu yng ngemau Olympaidd a Pharalympaidd 2020 Tokyo sydd wedi eu haildrefnu.

Mae Casnewydd Fyw yn sefydliad dielw ac yn elusen gofrestredig, a olyga fod unrhyw warged ariannol a gyflawnir yn mynd yn ôl yn uniongyrchol i wasanaethau a chyfleusterau rydym yn eu cynnig - felly mae cwsmeriaid Casnewydd Fyw yn ein helpu'n gyson i gefnogi'n cymuned leol.

Mae Timau Datblygu Chwaraeon a Chelfyddydau Casnewydd Fyw yn uchel eu parch yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ymysg partneriaid, sy'n cynnwys Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru, Gemau Stryd, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, Age Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Ieuencid a Chymdeithasol ynghyd â amrywiaeth eang o bartneriaid eraill. Mae ein tîm wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol ac mae wedi cael ei gydnabod am ei arloesedd a'i arfer gorau. Mae'r tîm yn cynnig ac yn hwyluso cyfleodd chwaraeon a chelf o ansawdd uchel i blant, teuluoedd ac ysgolion, cymunedau, clybiau a grwpiau lleol ledled Casnewydd ac ardaloedd ehangach yn ne Cymru. Rydym yn gwybod sut y gall chwaraeon, gweithgarwch corfforol, theatr, y celfyddydau a diwylliant gael effaith mor gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol pobl, gwella eu bywydau a gwella gwerth cymdeithasol ledled ein rhanbarthau. Mae'r tîm yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth yn ein cymunedau i wella lles ac annog cyfranogiad ac ymgysylltiad gydol oes mewn chwaraeon a'r celfyddydau.



Rydym yn falch o allu cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i gwsmeriaid, gan gynnwys:


- Digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys cyngherddau a dangosiadau sinema
- Perfformiadau theatrig ac artistig
- Pantomeim blynyddol
- Rhaglen helaeth o weithdai celf
- Arddangosfeydd lleol yn ein horiel gelf
- Comisiynu rhaglenni diwylliannol ac artistiaid preswyl
- Gŵyl gelf gymunedol y Sblash Mawr a digwyddiadau mawr eraill
- Cyfleusterau llogi a chynadledda corfforaethol
- Rhaglen campau dŵr lawn gan gynnwys dysgu nofio a rhaglen nofio perfformiad uchel gystadleuol
- Rhaglen beicio trac dan do helaeth ynghyd â rhaglenni cymunedol awyr agored.
- Stiwdios beicio grŵp gan gynnwys dosbarthiadau beicio rhithwir
- Rhaglenni hyfforddi tenis i oedolion a phlant
- Chwaraeon rased eraill gan gynnwys tennis bwrdd a badminton
- Athletau
- Pêl-droed
- Rhaglenni datblygu chwaraeon a chelfyddydau cymunedol sydd wedi ennill gwobrau
- Rhaglen Adfer Covid-19, rhaglen atgyfeirio Ymarfer Corff Meddygon Teulu a rhaglen Cerrig Camu i weithgarwch dilynol
- Stiwdios cardio, cryfder, gwrthiant ac arbenigol a 5 campfa
- Pysgota yn Llyn Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd
- Ardal hyfforddi cryfder pwrpasol a wal ddringo dan do
- Gweithgareddau plant
- Rhaglen helaeth o weithgareddau teuluol
- Rhaglenni gweithgareddau gwyliau
- Rhaglenni ymyrraeth gymunedol



MANYLION EIN LLEOLIADAU

THEATR A CHANOLFAN GELFYDDYDAU GLAN YR AFON

Mae Theatr Glan yr Afon wrth wraidd y celfyddydau ac adloniant yng Nghasnewydd, sy'n dod â chymaint o bobl â phosibl i gysylltiad â'r celfyddydau a chreadigrwydd. Hon yw unig theatr a chanolfan gelfyddydau broffesiynol y ddinas ac mae ganddi ddau ofod theatr sy'n gallu darparu ar gyfer cynulleidfaoedd o 500 neu 128 o bobl, sinema, oriel gelf, stiwdio ddawns, stiwdio recordio, nifer o ystafelloedd gweithdai, ystafell cyfleusterau cynadledda a thrwydded coffi a bariâu. Mae'r theatr wedi derbyn cyllid yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru i'n galluogi i ddatblygu ein hadeilad a'n gweithgareddau artistig.



CANOLFAN TENIS A NOFIO RANBARTHOL

Mae'r Ganolfan Tennis a Nofio Ranbarthol wedi'i lleoli ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd ac mae ganddi bwl nocio 25m wyth lôn sydd â lle i 625 o wylwyr a phwl dysgu 17x8m. Dyma'r unig ganolfan tennis dan do yn y rhanbarth gyda phedwar cwt tennis dan do a thri yn yr awyr agored. Mae gennym hefyd gampfa ddigidol sydd newydd ei datblygu, coffi, ardal gemau aml-ddefnydd awyr agored, man chwarae awyr agored i blant ac ystafelloedd cyfarfod amrywiol.



FELODROM CENEDLAETHOL CYMRU GERAINT THOMAS

Mae Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas wedi ei leoli yng ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol, ac mae'n un o ddim ond pump felodrom rhyngwladol dan do y DU. Mae lle ynddo ar gyfer hyd at 1,100 o wylwyr. Mae hefyd yn gartref i gampfeydd Cardio, Gwrthiant, a Phwysau rhydd, yn ogystal â Stiwdio Ffitrwydd, Stiwdio Beicio Grŵp Dan Do, Trac Speedway Awyr Agored, Cae 3G, Trac Pwmp BMX, arena fewnol a llawer o ardaloedd cynadledda.



CANOLFAN CASNEWYDD

Mae Canolfan Casnewydd yn gyfleuster amlbwrpas yng nghanol y ddinas. Dyma ein lleoliad cerddoriaeth adnabyddus ac mae wedi croesawu amrywiaeth o berfformwyr gan gynnwys Syr Elton John, Ed Sheeran a Marilyn Manson, yn ogystal â digwyddiadau chwaraeon a ddangoswyd ar y teledu. Mae gennym bwl nofio siâp llyn mawr gyda pheiriant tonnau a sleid, caffi, campfa, mannau ffitrwydd a neuaddau chwaraeon fawr gydag 8 cwr.



STADIWM CASNEWYDD

Mae Stadiwm Casnewydd yn gartref i Glwb Athletau Newport Harriers ac yn gyfleuster hyfforddi i Glwb Pêl-droed Casnewydd. Mae'r Stadiwm yn dal 2,450 o wylwyr a gall lwyfannu digwyddiadau athletau trac a maes rhyngwladol. Mae hefyd wedi cynnal gemau pêl-droed rhyngwladol. Mae Stadiwm Casnewydd hefyd yn rhan o Bentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.



CANOLFAN BYW'N ACTIF

Mae'r Ganolfan Byw'n Actif wedi'i lleoli yng nghalon cymuned Betws ac mae'n gartref i bwl nofio pedair-lôn 25m, campfa, stiwdio ddawns, pedwar cwr badminton, dwy rwyd criced dan do, cae Astroturf gyda llifoleuadau, ardal gemau amldeffnydd (MUGA), pedwar cwr tenis awyr agored a chaeau pêl-droed.



CANOLFAN GYSYLLTU

Mae'r Ganolfan Gysyllt yn lleoliad cymunedol aml-bwrpas sydd yn gartref i gyfleusterau diwylliannol a chwaraeon dan do ac awyr agored yng nghanol Casnewydd.



CENHADAETH, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD



EIN CENHADAETH

Bod yn ddewis cyntaf i bobl ar gyfer Chwaraeon, Hamdden, Diwylliant ac Adloniant, gan gyflwyno rhaglenni ysbrydoledig a digwyddiadau mewn cyfleusterau o ansawdd uchel, gyda staff medrus a brwdfrydig sy'n creu bywydau Hapusach ac Iachach.

EIN GWELEDIGAETH

Ysbrydoli Pobl i fod yn Hapusach ac yn Iachach

EIN GWERTHOEDD

Ein gwerthoedd, sy'n sail i bopeth a wnawn:

- ▷ Gofal
- ▷ Cynwysoldeb
- ▷ Arloesi
- ▷ Ysbrydoliaeth
- ▷ Angerdd
- ▷ Gwaith tîm





BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR



John Harrhy
Cadeirydd



Kevin Ward
Is-gadeirydd



Mike Butler



Stephanie
Hazlehurst



Cllr Majid Rahman



Cllr David Mayer



Katija Dew



Natalie Jakomis

TÎM GWEITHREDOL



Steve Ward
Prif Weithredwr



Martyn Seaward
Cyfarwyddwr Cyllid
ac Adnoddau ac
Ysgrifennydd y Cwmni



Andrea Ovey
Cyfarwyddwr Datblygu
Busnes



Neil Sargeant
Cyfarwyddwr
Gweithrediadau

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU EIN YMDDIRIEDOLWYR

YMDDIRIEDOLWYR A’U CYFRIFOLDEBAU:

Cyfarwyddo materion elusen

- Ymddiriedolwyr elusen yw’r bobl sy’n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Gellid eu galw yn ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu aelodau pwyllgor. Yr un yw’r egwyddorion a’r prif ddyletswyddau ym mhob achos

Budd i’r cyhoedd

- Mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb yn y pen draw am gyfarwyddo busnes elusen, ac mae’n rhaid iddynt dderbyn y cyfrifoldeb terfynol, gan sicrhau ei bod yn ddiddyled, yn cael ei rhedeg yn dda, ac yn cyflawni’r canlyniadau elusennol er budd y cyhoedd y mae wedi’i sefydlu ar eu cyfer

CYDYMFFURFIO - RHAI I’R YMDDIRIEDOLWYR:

Gydymffurfio â chyfraith elusennau

- Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â chyfraith elusennau a gofynion y Comisiwn Elusennau fel rheoleiddiwr; yn benodol, sicrhau bod yr elusen yn paratoi adroddiadau ar yr hyn y mae wedi’i gyflawni a Datganiadau a Chyfrifon Blynyddol fel sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith

Cydymffurfio â deddfwriaeth

- Sicrhau nad yw’r elusen yn torri unrhyw rai o’r gofynion na’r rheolau a nodir yn ei dogfen lywodraethol a’i bod yn parhau’n driw i’r diben a’r gwrthrychau elusennol a osodir ynddi
- Cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth arall a rheoleiddwyr eraill (os oes rhai) sy’n llywodraethu gweithgareddau’r elusen

Gweithredu gyda gonestrwydd

- Gweithredu gydag uniondeb, ac osgoi unrhyw wrthdaro personol o ran buddiannau neu gamddefnydd o gronfeydd neu asedau elusennol

DYLETSWYDD DARBODAETH - RHAI I’R YMDDIRIEDOLWYR:

Ddefnyddio cronfeydd elusennol ac asedau yn rhesymol

- Sicrhau bod yr elusen yn parhau i fod yn ddiddyled
- Ddefnyddio cronfeydd ac asedau elusennol yn rhesymol, a dim ond er mwyn hyrwyddo gwrthrychau’r elusen
- Osgoi ymgymryd â gweithgareddau a allai osod gwaddol, cronfeydd, asedau’r elusen neu ei henw da mewn perygl gormodol
- Cymryd gofal arbennig wrth fuddsoddi arian yr elusen, neu fenthycu arian i’r elusen i’w ddefnyddio

SUT I WNEUD CAIS

Mynegi Diddordeb

- Mae ffurflen datganiad o ddiddordeb fer wedi'i hamgáu yn y pecyn a dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r fanyleb person i'w helpu i ddarparu'r wybodaeth berthnasol fel rhan o'r cais datganiad o ddiddordeb

Dyddiad cau

- Dydd Sul 7 Chwefror 2021

Ffurflen dychwelyd

- Dylid dychwelyd y ffurflen at:
Steve Ward
Y Prif Weithredwr

Casnewydd Fyw
Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd
Spytty Boulevard
Casnewydd
NP19 4RA

neu drwy e-bost at steve.ward@newportlive.co.uk

Mwy o wybodaeth

- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.newportlive.co.uk

Trafodaeth anffurfiol

- I gael trafodaeth anffurfiol am Casnewydd Fyw a rôl Ymddiriedolwr, cysylltwch â Steve Ward ar 01633 656757 neu 07429 462192

Taliadau cydnabyddiaeth

- Mae pob swydd yn wirfoddol

Manyleb person

- Gweler drosodd y fanyleb person ar gyfer Ymddiriedolwr

MANYLEB PERSON AR GYFER YMDDIRIEDOLWYR

Profiad, sgiliau a galluoedd

- ▷ Gwybodaeth dda am y sectorau chwaraeon, hamdden, theatr, y celfyddydau a diwylliant
- ▷ Profiad o weithio yn y gymuned, y trydydd sector neu gyda grwpiau neu glybiau cysylltiedig
- ▷ Dealltwriaeth dda o amcanion Casnewydd Fyw ac yn enwedig, iechyd a lles
- ▷ Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu gwyb
- ▷ Sgiliau dadansoddol a'r gallu i weithio ar lefel strategol

Ar gyfer y swydd hon, mae profiad helaeth yn y meysydd canlynol yn ddymunol:

- ▷ Rheolaeth Ariannol – sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol
- ▷ Cyllid Strategol
- ▷ Arfarniad(au) Opsiynau Ariannol
- ▷ Stiwardiaeth ariannol / llywodraethu

Meysydd eraill / sgiliau arbenigol gan gynnwys:

- ▷ Celfyddydau a Diwylliant
- ▷ Rheoli Busnes
- ▷ Codi arian
- ▷ Marchnata
- ▷ Y Gyfraith
- ▷ Rheoli TG a Seilwaith

Gofynion eraill

- ▷ Bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd gyda'r nos ac o bosibl rhai cyfarfodydd yn ystod y dydd
- ▷ Ymwybyddiaeth o faterion lleol a gwerthfawrogiad o'r cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- ▷ Gwerthfawrogiad o statws a gweithrediad y sefydliad elusennol
- ▷ Yn gallu bod yn Llysgennad i'r sefydliad
- ▷ Didueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu cyfrinachedd

Penodi

- ▷ Bydd y penodiad cychwynnol am hyd at 3 blynedd, ac ar ôl hynny efallai bydd cyfle i ailymgeisio am dymor arall

Prif Swyddfa: Canolfan Tennis a Nofio Ranbarthol

Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Spyttty Boulevard, Casnewydd NP19 4RA

Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas

Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Velodrome Way, Casnewydd NP19 4RB

Stadiwm Casnewydd

Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Spyttty Boulevard, Casnewydd NP19 4PT

Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon

Ffordd y Brenin, Casnewydd NP20 1HG

Canolfan Casnewydd

Ffordd y Brenin, Casnewydd NP20 1UH

Canolfan Byw'n Actif

Ysgol Uwchradd Casnewydd, Lôn Betws, Betws, Casnewydd NP20 7YB

Canolfan Gyswllt

Mendalgief Road, Casnewydd NP20 2HF

01633 656757

newportlive.co.uk   

NEWPORT LIVE
CASNEWYDD FYW

INSPIRING HAPPIER HEALTHIER



01633 656757

newportlive.co.uk

